**CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD**

**COFNODION**

---

**CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL: 2 MAI 2017**

---

Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol oedd yn Bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd (Cadeirydd) | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Chris Bradshaw, Prif Weithredwr | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Y Cyng. Jim McIlwee, Dirprwy Arweinydd | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Stephen Gillingham, Prif Weithredwr | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Y Cyng. Huw David, Arweinydd | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Darren Mepham, Prif Weithredwr | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cyng. David Poole | - | Cyngor Caerffili |
| Chris Burns, Prif Weithredwr | - | Cyngor Caerffili |
| Y Cyng. Phil Bale, Arweinydd | - | Cyngor Caerdydd |
| Paul Orders, Prif Weithredwr | - | Cyngor Caerdydd |
| Y Cyng. Brendan Toomey, Arweinydd | - | Cyngor Merthyr |
| Gareth Chapman, Prif Weithredwr | - | Cyngor Merthyr |
| Y Cyng. Peter Fox, Arweinydd | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Paul Matthews, Prif Weithredwr | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd | - | Cyngor Casnewydd |
| Will Godfrey, Prif Weithredwr | - | Cyngor Casnewydd |
| Y Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd | - | Cyngor Torfaen |
| Alison Ward, Prif Weithredwr | - | Cyngor Torfaen |
| Y Cyng. Neil Moore, Arweinydd | - | Bro Morgannwg |
| Rob Thomas, Prif Weithredwr | - | Bro Morgannwg |

Swyddogion:

| | | |
|---|---|---|
| Christine Salter | - | Corff Atebol |
| Liz Weale | - | Corff Atebol |
| Hrjinder Singh | - | Corff Atebol |
| David Marr | - | Corff Atebol |
| Sheila Davies | - | Bargen Ddinesig |
| Sian Lewis | - | Bargen Ddinesig |
| John Duddridge | - | Bargen Ddinesig |
| Matthew Swindell | - | Bargen Ddinesig |
| Kellie Beirne | - | Sir Fynwy |
| Peter Davies | - | Sir Fynwy |

Ymddiheuriadau:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyng. Stephen Thomas, Arweinydd | - | Cyngor Blaenau Gwent |

**Rhif y Cofnod 4 ADRODDIAD TELERAU AC AMODAU CYLLID GRANT**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar ran y Corff Atebol, mewn perthynas â diddymu'r Amod Dilynol yng Nghymal 2.3 y Cydgytundeb Gwaith (JWA) mewn perthynas â chyflawni Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r amod hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cabinet Rhanbarthol gymeradwyo amodau ariannu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chyfraniad HMT o fewn chwe (6) mis o'r Dyddiad Dechrau, sef 1 Mawrth.

PENDERFYNWYD:

Gwnaeth y Cabinet Rhanbarthol ystyried a chymeradwyo telerau ac amodau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr eglurhadau oedd wedi'u cytuno'n ffurfiol; mae'r telerau a'r eglurhadau wedi'u nodi yn Atodiad 2. Yna, cytunwyd y dylid awdurdodi Swyddog Adran 151 Corff Atebol BDDprc i lofnodi'n ffurifol i ddangos eu bod yn derbyn telerau ac amodau ariannu Llywodraeth Cymru ar ran Cydgabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

10 : THE WIDER INVESTMENT FUND ANNUAL BUSINESS PLAN 2017-18

**Rhif y Cofnod 5 CYNLLUN BUSNES BLYNYDDOL 2017-2018**

**Gwnaeth y Cabinet Rhanbarthol ystyried adroddiad ar y Cynllun Busnes Blynyddol 2017-2018.**

PENDERFYNWYD:

a) Ar gyfer 2017-2018, y dylid canslo'r holl ofynion am rybudd ymlaen llaw am Gynllun Busnes Blynyddol, a
b) At ddibenion cydymffurfio â 2.4 a 7.3 y Cydgytundeb Gwaith y dylid cymeradwyo'r Cynllun Busnes Blynyddol 2017-2018, yn **Atodiad 1**, sy'n cynnwys:
    - Cynllun Pontio 2017-2018 y cytunwyd arno gan y Cabinet Rhanbarthol ar 17 Mawrth 2017;
    - cyllideb (arian wedi'i dderbyn) o £19,257,500 a'r gallu i ymrwymo hyd at £50m (pumdeg miliwn o bunnoedd o gyfraniad HMT) i gefnogi'r cynlluniau, projectau a rhaglenni a nodir yng Nghynllun Gweithredu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a gymeradwywyd fel rhan o'r JWA, gydag unrhyw gynnig penodol yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet Rhanbarthol;
c) Nodi os yw'r ymrwymiadau'n fwy na'r arian sydd ar gael yn 2017-2018, bydd gofyn ymrwymo cyllidebau blynyddol i'r dyfodol;
d) Cytuno mewn egwyddor i sefydlu dulliau cyflawni priodol, yn ôl y gofyn, i weithredu projectau cymeradwy, megis Awdurdod Arweiniol, Dull Dibenion Arbennig, neu ddull budd y gymuned.

11 : THE COMPOUND SEMICONDUCTOR PROJECT PROPOSAL

**Cofnod rhif 6 CYNNIG PROJECT LLED-DDARGLUDYDD CYFANSAWDD**

**Ni fydd Atodiadau 1, 2, 3a, 3b, 4, 5a, 5b, 6a, 6b a 7 yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Gwnaeth y Cabinet Rhanbarthol ystyried adroddiad gyda chynnig o'r sector preifat i fuddsoddi cyllid o'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach i gefnogi datblygiad Clwstwr Diwydiant Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn y rhanbarth drwy sefydlu safle yn y rhanbarth ar gyfer cynhyrchu a manwerthu penigamp. Cafwyd hefyd gwybodaeth, cyngor a dadansoddiad o'r cynnig i alluogi penderfyniad ar y cynnig buddsoddi hwn ac eglurhad i'r Cabinet Rhanbarthol pam y byddai'r cynnig yn gofyn am greu Cerbyd Dibenion Arbennig i gael safle ac ymgymryd â gwaith cysylltiedig.

PENDERFYNWYD**:** yn amodol ar:-

(i) Gydymffurfiaeth â'r amodau a nodir yn y cyngor arbenigol allanol yn atodiadau cyfrinachol y brif adroddiad,

(ii) Dod i gytundeb ynghyd â Phenawdau Termau y cyfeirir atynt ym Mharagraffau a) a c) isod,

(iii) Penderfyniad ar y materion y cyfeirir atynt ym Mharagraff 10.3 o'r Atodiad 6(a) cyfrinachol (Cynnig Project Lled-ddargludyddion Cyfansawdd), a

(iv) Nodi, mewn perthynas ag un o'r materion y cyfeirir atynt ym Mharagraff 10.3 Atodiad 6(a) cyfrinachol (Cynnig Project Lled-ddargludyddion Cyfansawdd), bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) wedi cytuno, mewn egwyddor, i gynnig cyllid at ddibenion llif arian fel y nodir ym Mharagraff 31 yr Adroddiad, drwy'r dull mwyaf hyfyw a chost-effeithlon, ac wrth ystyried budd RhCT a Chynghorau eraill y Fargen Ddinesig ar yr adeg honno ac yn unol â Strategaeth Rheoli'r Drysorlys RhCT.

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai'r Cabinet Rhanbarthol yn cefnogi datblygiad Clwstwr Diwydiant Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn y rhanbarth drwy sefydlu safle yn y rhanbarth ar gyfer cynhyrchu a manwerthu penigamp drwy:

a) Mynd i mewn i Gytundeb Penawdau Telerau gyda Llywodraeth Cymru ac yna'r trosglwyddiad ar gyfer prynu cyfleuster penodol;

b) Yn unol ag adran 2.4 y JWA, ymrwymo £38.4m o Gyfraniad y HMT i'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach ar gyfer gwaith landlordiaid i'r cyfleuster y cyfeirir ato ym Mharagraff a), sefydlu'r adeiladau, gwaith ategol a chostau rheoli a goruchwylio cysylltiedig;

c) Mynd i mewn i gytundeb Penawdau Telerau ar gyfer les 11 mlynedd, ac yna caniatáu les (mewn perthynas â'r cyfleuster y cyfeirir ato ym Mharagraff a), gyda'r prydleswr arfaethedig, gyda phroffil rhentu cam wrth gam ac Opsiwn Prynu hyblyg;

d) Galluogi'r prif brydleswr i fynd i mewn i gytundeb is-lesu; a

e) Sefydlu gwobr uniongyrchol ar gyfer y datblygiad ac adeiladu'r cyfleuster.

Yn sgil hyn, caiff Argymhellion a) i e) eu nodi mewn mwy o fanylder yn yr adroddiad a'r atodiadau cyfrinachol i'r adroddiad.

Yna, **PENDERFYNWYD**:

f) Sefydlu, mewn egwyddor, Cerbyd Dibenion Arbennig i weithredu'r cynnig, byddai'r manylion penodol yn destun adroddiad pellach i'r Cabinet Rhanbarthol er cymeradwyaeth;

g) Cyn sefydlu Cerbyd Dibenion Arbennig, cytuno er dibenion parhad, bod Cyngor Sir Fynwy yn dal i weithredu fel Awdurdod arweiniol i symud y mater hwn ymlaen; a

h) Bod angen diwygio'r Cynllun Busnes Blynyddol 2017-2018 cyn cymeradwyo'r cynnig hwn; mae'r diwygiad wedi'i gymeradwyo a bydd yn cael ei adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Cabinet Rhanbarthol i'w nodi.